# Ysgol Dewi Sant

Cylchlythyr 26.03.2021

# Pasg Hapus!

Hoffem ddymuno Pasg Hapus i bawb ohonoch yng nghymuned Ysgol Dewi Sant. Mwynhewch y seibiant a diolch am bob cefnogaeth y tymor yma.

We'd like to wish everyone in the school community here at Ysgol Dewi Sant a very Happy Easter. Enjoy the break and thank-you for your support this term.

Bydd yr ysgol yn ail-agor i bawb ar **Ddydd Llun, 12.04.21**

School will re-open for all on **Monday, 12.04.21**

Gerddi Pasg hyfryd Blwyddyn 1!

Year 1 made beautiful Easter gardens this week!



Wythnos yma rydym wedi bod yn myfyrio am y flwyddyn a fu ers y cyfnod clo cyntaf. Rydym yn cofio am y rhai sydd wedi colli anwyliaid ac yn diolch am y rhai sydd wedi ein helpu trwy gydol y cyfnod anodd.

This week we have been reflecting on the year that has been since the first lockdown. We remember those who have lost loved ones and thank those who have helped us throughout the difficult times.







Diolch

COMIC RELIEF

COMIC RELIEF

COMIC RELIEF







COMIC RELIEF

# Bl.1 yn chwilio am arwyddion Y Gwanwyn

# Yr.1 searching for signs of Spring













## Maes Parcio / Car Park

Rydym yn gofyn yn barchus unwaith eto i chi sicrhau eich bod yn parcio yn y mannau priodol ar y maes parcio. Yn anffodus, mae unigolion yn parhau i barcio mewn mannau a glustnodwyd ar gyfer pobl sy'n berchen ar fathodyn glas.

Once again we are respectfully asking you to ensure that you park in the correct spaces on the car park. Unfortunately, we are still witnessing individuals who are not displaying a blue badge parking in the designated spaces for blue badge holders.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Oeddech chi'n gwybod?

Mae grantiau ar gael i helpu teuluoedd ar incwm isel brynu dillad a chyfarpar ysgol.

## Mae blynyddoedd ysgol newydd bellach yn gymwys ac mae meini prawf wedi'u hymestyn i gynnwys gliniaduron neu dabledi



Gall dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gwneud cais am y grant hwn os ydynt:

- Mewn dosbarth derbyn yn yr ysgol gynradd
- Cyfnodau allweddol, e.e. Cyfnod Allweddol 2, 3, 4(cynradd ac uwchradd).
- Yn yr ysgol gynradd ym mlynyddoedd ysgol 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 ac 11
- Mewn ysgol arbennig, canolfan adnoddau anghenion arbennig neu uned cyfeirio disgyblion ac maent yn 4,5,7,9,11,12,13,14 neu 15 oed
- Gall teuluoedd dim ond gwneud un cais ar gyfer un plentyn, unwaith ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

Bydd gan blant ysgolion cynradd ac uwchradd yr hawl i **£125** ar gyfer pob cais.

Gall plant ym Mlwyddyn 7 wneud cais am **£200** i helpu gyda chostau ychwanegol dechrau yn yr ysgol uwchradd.

Felly mae dosbarth derbyn a blynyddoedd **ysgol 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 ac 11** i gyd bellach yn gymwys.

Bydd y gronfa'n cynnwys gwisg ysgol a phecyn chwaraeon, offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored, ac offer ar gyfer gweithgareddau o fewn y cwricwlwm.

O fis Chwefror 2021 mae'r gronfa bellach yn **cynnwys prynu gliniadur neu dabled.**

**Sut i wneud cais**

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol:
llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DID YOU KNOW?

Grants are available to help families on low incomes buy school uniform and equipment.

## New school years are now eligible and criteria has been extended to include laptops or tablets



Learners eligible for free school meals can apply for this grant if they are:

- In reception class at primary school
- Key Stage 2, 3 and 4 (primary and secondary)
- In school years 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 and 11
- In a special school, special needs resource base or pupil referral unit and are aged 4, 5, 7, 9, 11, 12, 13, 14 or 15
- Families are only entitled to claim once per child, per school year.

Primary and secondary school children are entitled to £**125** for each application.

Children in Year 7 can apply for £**200** to help with the additional costs of starting secondary school.

So reception and school **years 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 and 11** are all now eligible.

The fund will cover school uniform and sports kit, equipment for out of school hours trips, including outdoor learning, and equipment for activities within the curriculum.

From February 2021 the fund now includes the **purchase of a laptop or tablet.**

**How to apply**
Contact your local authority:
gov.wales/pupil-development-grant-access

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

# DAWNS YN Y JYNGL

Session dawns i'r teulu gyda geiriau allweddol Cymraeg

## Dance In The Jungle

Fun Family Dance session with key words in Welsh

£2.00 or donation neu cyfraniad

Live on Zoom

ONLINE NEW DANCE AR-LEIN

Yn fyw ar Zoom

**i blant fyny at 7 oed a'u teuluoedd**

***for children up to 7 years and their families***

Choose your date: Wed 7th April Thurs 8th Sat 10th

**10:00 - 10:45**

Dewisiwch ddyddidad: Mercher 7fed Ebrill Iau 8fed Sadwrn 10fed

**Wedi'i anelu at deuluoedd ddi-gymraeg & dysgwyr Cymraeg**

**Aimed at Non-Welsh Speaking & learner families**

For a link to the live session/ am link i'r sesiynau byw -
email/ebostiwch: claire.tranmer@newdance.org.uk
Tel: 07399642853



**I'r ysgol yn unig y mae'r swigen ysgol.**
**Gyda'n gilydd rhaid cyfyngu'r feirws i gadw'r ysgolion a gofal plant ar agor.**

Diogelu Cymru gyda'n gilydd
llyw.cymru/coronafeirws

DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE

Llywodraeth Cymru Welsh Government



**School bubbles are for school only.**
**Limit the spread of the virus and together we can keep schools and childcare open.**

Together we'll keep Wales safe
gov.wales/coronavirus

DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE

Llywodraeth Cymru Welsh Government




# Llyfrau Llyfrau Llyfrau!

Rydym yn ailagor ein drysau o ddydd Llun Mawrth 29 felly byddwch yn gallu ymweld â'r llyfrgell i ddewis eich llyfrau a hefyd i godi bag o syniadau crefft dros y Pasg.

Byddwch yn gallu trefnu apwyntiad ar gyfer sesiwn bori 20 munud mewn amgylchedd ddiogel Covid, neu os yw'n well gennych gallwch ofyn i ni ddewis bag o lyfrau ar eich cyfer, i'w gasglu.

Mae gennym ni lawer o lyfrau i ddewis ohonynt!

Rhowch alwad i ni. Am fwy o wybodaeth, ewch i :-

**www.sirddinbych.gov.uk/llyfrgelloedd neu ffoniwch Lyfrgell y Rhyl ar 01745 353814**

# Books Books Books!

We are re-opening our doors from Monday 29th March so you will be able to visit the library to choose your books and also pick up a bag of Easter craft ideas.

You will be able to book an appointment for a 20 minute browsing session in a Covid safe environment, or if you prefer you can still ask us to select a bag of books for you, ready for collection. We've got lots of books to choose from!

Just give us a call to make an appointment. For more information visit:-

**www.denbighshire.gov.uk/libraries or call Rhyl Library on 01745 353814**




LlyfrgellDinb
DenbsLibs

DenbighshireLibraries

Llyfrgelloedd Sir Ddinbych
Denbighshire Libraries







Bydd dysgwyr Ysgol Dewi Sant ar raglen 'Helo Shwmae' Cyw eto wythnos yma! Tro Blwyddyn 2 oedd hi tro yma! Cafodd dysgwyr Blwyddyn 2 sialens cwlwm tafod i gwblhau! Mae posib gwylio'r rhaglen draw ar *YouTube* neu trwy'r app CywTiwb!

Learners for Ysgol Dewi Sant starred on the Cyw programme '*Helo Shwmae*' again this week! They were given a tongue twister challenge to complete.

You can watch the programme on YouTube or on the CywTiwb app.

Dilynwch ni ar Drydar ar gyfer diweddariadau, gwybodaeth, lluniau a newyddion.

**@YsgolDewiSant**

Follow us on Twitter for regular updates, information, photographs and news.

1,898 o ddilynwyr

1,898 followers




# I sylw rhieni Bl6

# For the attention of Yr6 Parents

**CyngorSirDdinbych** @Cyngor... · 10h

Gallwch nawr ddechrau gwneud cais am gludiant i ysgol uwchradd ar gyfer mis Medi 2021. Gallwch wneud cais am gludiant am ddim os yw lle wedi'i gadarnhau mewn ysgol a'ch bod yn byw yn Sir Ddinbych.

**DenbighshireCC** @Denbighsh... · 10h

You can now start to apply for secondary school transport for September 2021. You can only apply for free school transport if a place has been confirmed at a school and you live in Denbighshire.

MANYLION AR GAEL AR WEFAN SIR DDINBYCH.

DETAILS AVAILABLE ON DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL'S WEBSITE

# Cyfweliad BBC Interview



Ddoe, cafodd y ddwy yma sef Mia a Lauren o Flwyddyn 6 y cyfle i gynrychioli yr ysgol a'n hardal trwy gyfweliad ar gyfer BBC Cymru Fyw. Cafodd y ddwy eu cyfweld am eu gwaith o gyfrannu at y murlun arbennig sydd wedi ymddangos ar wal Canolfan Siopa White Rose yn Y Rhyl.

Diolch am gynrychioli'r ysgol genod!

Ydych chi wedi gweld y murlun eto?

Isod mae'r ddolen i chi wylio'r cyflweliad yn llawn:

Murluniau arbennig sy'n annog balchder lleol - BBC Cymru Fyw

Yesterday, Mia and Lauren from Year 6 represented the school and our local area by taking part in an interview for '*BBC Cymru Fyw*'. They were both interviewed about their work contributing to the special mural that has appeared on the wall of the White Rose Shopping Centre in Rhyl.

Thank you for representing the school!

Have you seen the mural yet?

Below is the link for you to watch the interview in full:

Murluniau arbennig sy'n annog balchder lleol - BBC Cymru Fyw



# Parti ym Mlwyddyn 2

Dathliadau Pen-blwydd Oriel Oren ym mlwyddyn 2 heddiw!

Oriel Oren's Birthday celebrations in Year 2 today!









